

CANOLBWYNTIO AR LASWELLT

- AWST 2007 -

C.1	<p><i>Bydd prynu porthiant organig y gaeaf hwn yn ddrud, sut fedrai leihau fy nibyniaeth arno?</i></p> <p>Ateb: Os ydych yn bwriadu ailhadu eleni, ar ôl y tywydd gwael gafwyd i wneud silwair, dylech ystyried tyfu rhywbeth sydd o ansawdd addas i'w roi yn lle dwysfwydydd a/neu i ymestyn eich tymor pori. Mae glaswellt a meillion o ansawdd uchel bob amser yn fuddsoddiad da gan mai dyma yw'r ffynhonnell rataf o borthiant sydd ar gael. Ond mae defnyddio cnydau bresych yn ymestyn y tymor pori, ac yn parhau i roi porthiant o ansawdd uchel tan ganol y gaeaf. Dylech nodi pryd fydd y porthiant yn prinhaus ac ar gyfer sut fath o dda byw, gan ddod o hyd i borfwyd addas. Mae amser o hyd i hau rêp, sofrl maip, maip a chêl cyn diwedd Awst. Ar gyfer dechrau'r gwanwyn byddai rhygwellt Eidalaid neu Westerwolds yn opsiwn synhwyrol a bydd yn cymryd unrhyw nitrogen sydd yn y pridd; er hynny bydd angen i ffrwythlondeb y pridd fod yn dda i gael cynnyrch da. Heuwch y cnwd yn syth neu o dan gnwd i wyndwn newydd, ond cofiwch, os yw'n cael ei hau dan gnwd, bydd cyfradd hadau'r cnwd porthiant a'r cynnyrch yn gostwng, i beidio bygwth y gwyndwn newydd. Mae is-gnydau fel 'Swift' sy'n hybrid o rêp a chêl, yn tyfu'n gyflym iawn ac yn wydn yn y gaeaf, gyda'r posibilrwydd o ail-dyfiant ardderchog. Gall y cynnyrch fod yn 10t/DS/ha gyda ME o 12.8 a CP o 15-24%. Bydd y gost i'w sefydlu tua £160/ha – llawer llai na 1 dunnell o ddwysfwyd y gaeaf hwn. Byddai cost fesul kilogram o ddeunydd sych yn 2c, o dybio bod 80% o'r cnwd yn cael ei ddefnyddio. Mewn cymhariaeth byddai dwysfwydydd tua 22-27c. Mae gan gnydau bresych rôl bwysig i'w chwarae i ymestyn y tymor pori a gostwng costau porthiant gaeaf. Dewisiadau eraill, os oes cnydau eisoes wedi eu sefydlu, yw crimpio grawnfwydydd neu india-corn yn hytrach na gwneud cnwd cyfan a phorthi dwysfwyd wedi ei gynhyrchu gartref. Ceir rhagor o wybodaeth am opsiynau porthiant ar y daflen wybodaeth WMO2.0am reolaeth yn ystod y gaeaf.</p>
C.2	<p><i>Dw i wedi sylwi fod meillion yn tra-arglwyddiaethu mewn rhai caeau a hynny ar draul y gweiriau. Sut fedrai gael gwell cydbwysedd efo glaswellt a meillion?</i></p> <p>Ateb: Mae meillion yn ymateb yn dda i dymheredd yr haf ac yn tyfu'n dda wedi i laswellt fynd heibio anterth ei dyfiant yng Ngorffennaf- Awst. Mae hefyd yn tyfu'n gryf o dan system o seibiant a thorri ac yn aml yn tra-arglwyddiaethu ar ôl toriad silwair. Gall dominyddiaeth meillion eleni fod yn gysylltiedig â gwanwyn cynnar, sych a chynnes oedd yn ffafrio tyfiant meillion. Dylid anelu i'w bori'n galed o ddiwedd yr haf i'r gaeaf, a dylai hyn wanhau'r meillion gan ffafrio tyfiant glaswellt. Dulliau eraill o wirio meillion yw defnyddio oged laswellt i dorri unrhyw stolon neu gadw darn glaswellt drwy'r haf i fod yn gystadleuol y gwanwyn nesaf. Dylai cyfyngu ar dyfiant meillion yn awr alluogi'r glaswellt i gyrraedd cydbwysedd addas gyda'r meillion. Y glasdir sydd â'r mwyaf o risg yw gwyndynnydd iau, ble nad yw glaswellt hyd yma wedi sefydlu, os yw'r meillion wedi dod i dra-arglwyddiaethu. Aseswch y meillion yn y gwanwyn a chynlluniwch y pori yn unol â hynny; mabwysiadwch reolaeth sy'n gydnaws â meillion ble nad yw tyfiant stolon yn rhy drwchus ac yn gyffredin neu 'reolaeth nad yw'n gydnaws â meillion' ble mae'r meillion wedi datblygu'n dda. Cydbwysedd delfrydol i wyndwn meillion yw ceisio cael 20-30% yn nechrau'r tymor tyfu gyda hyd at 50-60% yn rhan olaf yr haf i gael ar gyfartaledd tua 30% o orchudd ar y ddaear dros y flwyddyn.</p>

<p>C.3</p>	<p>Mae gwneud silwair o gnwd trwm a hithau'n wlyb wedi gadael rhai o fy nglasdiroedd yn agored iawn – a ydy nawr yn amser da i hau uwchben cnwd?</p> <p>Ateb: Yr adeg yma o'r flwyddyn bydd lleithder y pridd yn aml yn hanfodol i lwyddiant hau uwchben cnwd - eleni dylai'r amgylchiadau fod yn ddelfrydol. Mae helpu glasdir i fynd yn fwy trwchus drwy gyflwyno peth had yn syniad ardderchog. Heb rygwellt grymus yn llenwi'r bylchau, gall gwyndwn agored gael ei ddominyddu'n gyflym gan weunwellt, brechlys a gweiriau ymledol fel maeswellt gwyn, heb sôn am chwyn fel ysgall a dail tafol. Dylech archwilio'ch pridd cyn gwario unrhyw arian ar ei wella. Bydd cywasgu'r wyneb neu gemeg pridd gwael yn golygu na fydd hadau newydd yn sefydlu. Byddwch yn ofalus i beidio taenu a chapio wyneb y pridd. Defnyddiwch oged laswellt i greu tua 25% o ddaear foel. Heuwch yr hadau ar led gan rollo'r pridd yn ysgafn i sicrhau fod gan yr hadau gysylltiad da gyda'r pridd. Fel arall, gellir defnyddio heuwr slot neu ddril uniongyrchol. Hybridau a mathau rhygwellt tetraploid yw'r rhai sydd fwyaf addas fel cnwd uwchben, gan fod ganddynt hadau mawr ac yn cynhyrchu egin blanhigion sy'n tyfu'n gyflym ac yn gallu goroesi peth cystadleuaeth. Sicrhewch fod eu dyddiau aeddfedu yn addas i'ch system dorri gan gael cnwd uwchben ar rhwng 7-10kg/erw. Peidiwch â chwalu unrhyw nitrogen neu dail gan y bydd hyn yn 'bwydo'r' glaswellt presennol yn 'trechu'r' egin blanhigion. Dylech weithredu polisi o bori/seibiant/pori dros yr wythnosau nesaf i gadw'r glasdir yn fyr ond peidiwch â gorburi a niweidio planhigion diamddiffyn newydd.</p>
<p>C.4</p>	<p>Oes angen i mi roi calch ar fy nhir glas ac os oes - beth ddylwn ei ddefnyddio?</p> <p>Ateb: Mae diffyg calch yn naturiol yn amryw o briddoedd Cymru, ond mae'n bwysig i gynhyrchu glaswellt o ansawdd. Dylid chwalu calch mor aml a sydd angen i gadw lefel pH y pridd rhwng 5.8 a 6.2 (priddoedd mawn 5.5-5.8). Ar briddoedd asid, mae calch yn arbennig o bwysig gan ei fod yn cymryd lle'r calsiwm a gollwyd o'r pridd drwy drwytholchi a mewnlifiad cnwd. Os nad yw pH y pridd yn gywir, mae llai o faetholion eraill, ac mae'r ymateb i nitrogen a gwrteithiau eraill yn wael. Mae hyn yn lleihau'r cynnyrch, yn cynyddu'r risg o lygredd drwy wrtaith 'gwastraff', ac yn costio arian. Uchafswm y chwaliad calch unigol yw 3 tunnell/erw (7t/ha). Mae'r math o bridd yn dylanwadu ar y gyfradd colli calch; mae gan briddoedd tywodlyd allu isel i ddal deunydd calch ac angen calch yn amlach ar raddfa is, tra fo priddoedd trwm yn cadw lefelau pH yn haws. Mae glawiad trwm a defnydd uwch o nitrogen yn cynyddu cyfradd y golled, ond yn fras mae tua thraean o dunnell fesul erw yn cael ei golli bob blwyddyn.</p> <p>Mae ystod o gynnyrch gydag enwau masnachol, ond mae tri phrif bwynt i'w hystyried:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'r Gwerth Niwtral (NV) yn amrywio; mae gan garreg galch wedi ei malu NV o 50-55% (Mae gan 100kg o garreg galch yr un gwerth NV â 50-55kg Calsiwm Ocsid pur). Mae calch llosg tua 90-100%, ac eraill ond yn 40%. Bydd hyn yn effeithio'r gyfradd chwalu. 2. Lefel Toddadwyedd - Nid oes llawer o chwareli yn dal i falu carreg galch yn bowdr mân. Mae hyn yn effeithio pa mor gyflym mae'r calch yn gweithio a pha mor hir mae'n para. Mae rhai cynhyrchion yn cymryd blynyddoedd i dorri i lawr ac yn gweithio'n araf, tra fo eraill yn toddi ac yn gweithio'n gyflym, ond yn cael eu colli o'r pridd cyn pen 18 mis. 3. Cost - Mae hyn yn dibynnu ar y ddau bwynt cyntaf. A yw hyn yn fuddsoddiad tymor hir neu yn ateb sydyn ar dir tenantiaeth fer neu dir wedi ei rentu? Oes angen llwythi swmpus neu ai cae bychan ydyw 3 milltir i fferdd o'r fferm? Dylid archwilio lefelau magnesiwm y pridd (Mg) cyn defnyddio 'MagLime,' hyd yn oed os yw'n rhatach, gan y dylid osgoi indecs Mg dros 3. Mae cynhyrchion sydd â nodweddion eraill (ee elfennau hybrin, P a K) yn ddrud iawn o safbwynt gwerth niwtral - cofiwch rydych yn talu am y "manteision' eraill". Dylech holi'r corff ardystio y caniateir i chi ddefnyddio'r cynnyrch y bwriadwch ei ddefnyddio.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r canlynol
GDC - Ffôn: 01970 823058 neu e-bostiwrch:
E-bost: heather.mccalman@bbsrc.ac.uk /

